

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Bell a gynhaliwyd ar 18 Mai, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd S.D. Perkes (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, I. Buckley, C.A. Cave, C.E.A. Champion, C.M. Cowpe, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, I.A.N. Perry, C. Stallard, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, S. Campbell, V.P. Driscoll, J.E. Charles, C.P. Franks, R. Godfrey, W.A. Hennessy, J. Protheroe a R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol).

35 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

36 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

37 ADRODDIAD APÊL SY'N YMWNEUD Â CHAIS CYNLLUNIO 2019/00871/ ALLAN – TIR YN MODEL FARM, PORT ROAD, RHOOSE (YAP) –

Cyflwynwyd y cais cynllunio uchod gerbron yr Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 1 Mawrth, 2023. Nodwyd manylion a chefnidir y mater yn helaeth yn adroddiad y Swyddog a gyflwynwyd yn y cyfarfod hwnnw.

Cynhaliwyd pleidlais ar Gynnig yn cefnogi argymhellion y Swyddog i gymeradwyo'r cais, ond fe'i trechwyd. Cytunwyd wedyn gan y Pwyllgor y byddai'r cais yn cael ei ohirio, er mwyn caniatáu ystyriaeth bellach o'r rhesymau dros wrthod y cais.

Yn y cyfamser, cyflwynodd yr Ymgeiswyr apêl i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC), gan nodi'r rheswm dros yr Apêl (O dan adran F o'r ffurflenni apêl) fel a ganlyn: 'Methiant yr Awdurdod Cynllunio Lleol i roi ei

benderfyniad o fewn y cyfnod priodol (8 wythnos fel arfer) ar gais am ganiatâd cynllunio'.

Roedd cyflwyno'r Apêl yn erbyn diffyg penderfyniad yn golygu bod unrhyw benderfyniad ffurfiol ar y cais bellach wedi'i gymryd allan o reolaeth yr Aelodau, a'i fod bellach o fewn awdurdodaeth PCAC.

Er gwaethaf yr uchod, roedd yn rhaid i'r Aelodau benderfynu (pleidleisio) a oeddent yn dymuno amddiffyn safbwynt yr Awdurdod yn yr Apêl ac, os felly, ar ba sail. Pe bai Cynnig yn cael ei basio i amddiffyn yr Apêl, roedd angen i'r Aelodau gyflwyno'r rhesymau penodol dros wrthod, y byddent wedi'u cyflwyno pe byddent wedi cael cyfle i benderfynu ar y cais.

Fel arall, gall Aelodau benderfynu nawr nad ydynt yn dymuno amddiffyn yr apêl, sy'n golygu y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud gan PCAC ar y rhinweddau, gan roi sylw i unrhyw wrthwynebiadau eraill gan bartïon â diddordeb ond heb gyfranogiad gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Ar ôl ystyried adroddiad yr ymgynghorydd allanol penodedig..

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid amddiffyn sefyllfa'r Awdurdod, mewn perthynas â'r Apêl am ddiffyg penderfyniad ar gais cynllunio ar gyfer y Tir yn Fferm Model, Port Road, Y Rhws (2019/00871/OUT) mewn Apêl.

(2) BOD amddiffyniad yr Awdurdod mewn Apêl yn seiliedig ar y rhesymau tybiedig a ganlyn dros wrthod:

- Ecoleg;
- Treftadaeth;
- Argyfwng Hinsawdd.

(3) Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor er mwyn cymeradwyo'r union eiriad am y rhesymau tybiedig dros wrthod fel rhan o'r Apêl.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Cadarnhau bod y Pwyllgor yn dymuno amddiffyn yr Apêl Diffyg Penderfyniad.

(2) Cadarnhau pe bai'r Pwyllgor wedi gallu gwneud hynny y byddai wedi gwrthod y cais oherwydd y pryderon a godwyd ynghylch ffactorau Argyfwng Ecoleg, Treftadaeth ac Hinsawdd.

(3) Caniatáu amser i baratoi geiriad manwl mewn perthynas â'r rhesymau tybiedig dros wrthod i'w hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor.